Syniadau A.G.

Tymor yr Hydref 2018 **Pris £1.00**

gan Mrs Samantha Bray

Pwy 'di Pwy ?

Pobl sydd yn dylanwadu

Mae hi wedi bod yn Haf prysur iawn yng ngemau y Gymanwlad yn Awstralia, priodas yn y teulu brenhinol, a Chwpan y Byd ym Mheldroed, yn Rwsia, a llawer llawer mwy……. Weithiau, mae'n rhwydd ymgolli yn 'nathliadau y bobl bwysig' gan fod pobl am wybod mwy a mwy amdanynt, ac efallai maent yn anghofio y rhai sydd yn dylanwadu go iawn. Bydd y rhifyn yma yn archwilio i fywydau dau o bobl sydd wedi cael dylanwad yng Ngristnogaeth.

TASG: Pwy 'di Pwy ?

C. Fedrwch chi enwi unrhywun o'r bobl 'ddylanwadol' rydym wedi eu gweld yn ystodyr Haf?

C. Pam fod rhai pobl yn galw y rhain yn 'bobl ddylanwadol'? Beth maent wedi ei wneud ?

Atebion (yn ôl y cloc o'r chwith uchod)

1. Alistair a Jonny Brownlee (athletwyr Prydeinig) 2. Harry a Meghan (Teulu Brenhinol)
3. Christiano Ronaldo (Peldroediwr o Portugal) 4. Ed Sheeran (cerddor)
5. Kim Jong-un (arweinydd Gogledd Korea) a Donald Trump (Llywydd America)

Beth wyddom ni am Iesu?

Adnoddau: Bydd pob grwp angen darn o bapur a phen, 10 lliw gwahanol: (neu siswrn efallai), set o gardiau 'Mix 'n' Match' (gweler y dudalen nesaf), a golwg bendant o'r adnodd Think Pair Share (gweler isod).

Gweithgaredd: gall disgyblion weithio mewn grwpiau o 4 i 6 o wahanol alluoedd. Nod y dasg fydd gweld beth yn hollol mae'r disgyblion yn ei wybod am Iesu Grist a beth hoffent ei wybod .

1. Rhowch i bob grŵp set o gardiau 'Mix 'n' Match' a gofynnwch iddynt i weithio gyda'i gilydd i un ai roi lliw arbennig i'r gair allweddol a'r ystyr / diffiniad , neu dorri allan y bocsys, eu sortio a'u rhoi mewn trefn.
2. Wedi gorffen, ewch drwy'r cardiau gyda'r dosbarth i gyd, yn trafod y syniadau sydd ganddynt.
3. Beth sydd heb ei ofyn neu ei ateb yma? Gadewch i'r disgyblion gael amser i Feddwl, Rhannu (yn yr un grŵp), ac yna ysgrifennu 2 neu 3 o'r pethau mwyaf rhyfeddol ar ddarn o bapur a'i rannu gyda gweddill y dosbarth
4. Fel dosbarth cyfan, rhannwch y rhai sydd heb eu hateb - fedr rhywun arall eu hateb ?



Esiampl o strwythur Meddwl a Rhannu ar gyfer y disgyblion.

Rhagor o archwiliad annibynol

Chwiliwch am luniau gwahanol o Iesu, geir mewn llyfrau, hen ddarluniau a straeon modern ac edrychwch arnynt yn ofalus yn yn enwedig ar luniau o Iesu.

- Beth sydd yn debyg ynddynt?
- Sut maent yn wahanol?
- Beth mae pob arlunydd yn ei ddweud am Iesu?

Pwy yw Iesu ? – Cardiau 'Mix 'n' Match'

Cristnogion	Mae manylion o'r hyn ddwedodd Iesu a'r hyn wnaeth wedi eu cynnwys yn y llyfr yma
Iesu	Teitl i Iesu sydd yn golygu 'Athro'
Israel	Pryd y ganwyd Iesu
Y Beibl	Yr ardal lle roedd Iesu yn byw .
Beth yw ystyr y llythrennau CC a OC ? (=AD)	Y bobl sydd yn dilyn Iesu ac yn credu ei fod yn Fab Duw.
Croeshoeliad	Cyn Crist Anno Domini (y Lladin am 'Flwyddyn ein Duw')
Rabbi	Rhywun sydd yn dilyn Iesu – 'disgybl'
Disgybl	Iesu yn atgyfodi o farwolaeth, dri diwrnod ar ôl ei groeshoelio.
Atgyfodiad	Bu fyw rhyw 2000 mlynedd yn ôl ac mae Cristnogaeth wedi ei sefydlu ar ei ddysgeidiaeth ef.
Nadolig	Y ffordd y bu i Iesu farw – Cael ei hoelio i groesbren.

* Man cychwyn trafodaeth yn unig yw'r cardiau yma ac er mwyn cael y disgyblion i feddwl beth sydd yn gwneud Iesu yn berson gyda chymaint o ddylanwad.
Os oes cwestiynnau am Iesu heb eu hateb, gallent fod yn rhan o ymchwil y grŵp eto, tasg waith cartref neu wers arall.

Paul o Darsus

TASG

Cyn egluro unrhywbeth am Paul i'r disgyblion, dangoswch y llun yma a gofyn iddynt i gwblhau yr adran 'Disgrifiwch' yn y bocs isod. Wedi rhannu gwybodaeth, darllenwch Actau 9 yn uchel (mae y rhan sydd yn son am y llun i'w weld isod)

Beth sydd yn digwydd yn y llun?

Disgrifiwch beth welwch chi yn y llun mewn 2-3 brawddeg

Ewch ymhellach…

Pam ydych chi yn credu fod Paul yn cael ei ystyried fel person mor ddylanwadol yng Nghristnogaeth?

Pa esiampl gafwyd ganddo?

Fedrwch chi feddwl am unrhywun gyda mwy o ddylanwad?

Actau, 9:3-9

Wrth nesau at Ddamascus ar ei daith. Yn sydyn gwelodd oleuni yn fflachio o'i gwmpas, Syrthiodd i'r llawr a chlywodd lais yn dweud wrtho "Saul, Saul, pam wyt ti yn fy erlid i?"

"Pwy wyt ti Arglwydd?" gofynnodd Saul .

"Iesu wyf i, yr un wyt ti yn ei erlid," atebodd. "Nawr cod a dos i mewn i'r ddinas, a chei wybod beth sydd raid i ti ei wneud ."

Fedrai y dynion oedd yn teithio gyda Saul ddweud dim; ' roeddynt wedi clywed y llais ond yn methu gweld unrhywun. Cododd Saul, ond pan agorodd ei lygaid, ni fedrai weld. Felly, arweiniwyd ef gerfydd ei law i fewn i Damascus. Bu yn ddall am 3 diwrnod - ac ddim yn bwyta nac yfed.

ADNODDAU MAGC (Mudiad Addysg Grefyddol Cymru)

NEWYDD - Hyrwyddo Crefydd (MAGC 1995-2015)

Catalog Adnoddau, Cyhoeddiadau ac ôl rifynnau o '*Syniadau AG*' ar gael

Cyhoeddiadau Cynradd – *Pobl Arbennig ; Adegau Arbennig; Iesu; Y Nadolig – o flwyddyn i flwyddyn; Mannau Arbennig*

Cyfres Ymchwilio i Thema: *i Codau Byw; i Ddathliadau; i Gredoau ac i Gwestiynau Dyrys.*

SAESNEG *Amazing Lives* (ar gael yn Gymraeg – **Am Ddawn – Huw John Hughes**)

Cyhoeddiadau Uwchradd – *What the Welsh Churches say on moral and social issues; Barn yr Eglwysi ar faterion moesol a chyndeithasol.*

Cyffredinol:: *More than Just RE* (CEMW Annual Lectures)

Cysyllter â: Sali Roberts, MAGC, Patshyn, Rhiwgwreiddyn, Ceinws,MACHYNLLETH SY20 9EX

(Tel/Fax: 01654 - 761 697) e bost : salipatshyn.hotmail.com

© MAGC 2018